Uned Atal Trais Cymru

# Canllawiau Asesu Anghenion Strategol Dyletswydd Trais Difrifol i Gymru

Mawrth 2023

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

Paratowyd gan Lara Snowdon, Dr Alex Walker, ac Emma Barton

Dyfyniad awgrymedig: Snowdon, L., Walker, A., Barton, E., (2023) *Canllawiau Asesu Anghenion Strategol Dyletswydd Trais Difrifol i Gymru,* Uned Atal Trais Cymru, Caerdydd.

ISBN: 978-1-83766-141-1

© 2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Cynnwys


Cyflwyniad ... 1

Pwrpas y canllaw hwn ... 1

Y Ddyletswydd Trais Difrifol ... 1

Partneriaid sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd ... 2

Gofynion y Ddyletswydd ... 3

Dull iechyd y cyhoedd ... 3

Datblygu asesiad o anghenion strategol (SNA) ... 7

Datblygu SNA ... 7

1. Gofynion y Ddyletswydd a rolau sefydliadol ... 9

2. Partneriaid lleol yn ymwneud ag SNAs ... 10

3. Diffinio trais ... 11

4. Data am leoedd a phoblogaeth ... 13

5. Data a deallusrwydd ... 14

6. Ffactorau risg ac amddiffynnol ... 16

7. 'Beth sy'n gweithio' ar gyfer atal trais? ... 19

8. Datblygu argymhellion ... 22

Ystyriaethau croestoriadol ... 23

A. Llais cymunedol ... 23

B. Croestoriadedd ac amrywiaeth ... 24

C. Wedi'i lywio gan drawma ... 26

Crynodeb ... 29

Cyfeiriadau ... 30

# Cyflwyniad

## Pwrpas y canllaw hwn

Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Deddf PCSC) yn cynnwys gofyniad i bartneriaethau lleol gwblhau asesiad o anghenion strategol (SNA) i ddeall sut mae trais yn effeithio ar eu cymunedau a'u helpu i ddatblygu strategaeth atal trais.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth, adnoddau, a chamau ymarferol ar sut i gynnal SNA ar gyfer atal trais. Dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Canllawiau Statudol Dyletswydd Trais Difrifol ar gyfer awdurdodau cyfrifol, yn benodol, yr adran 'Cyflawni yng Nghymru' ym Mhennod 1 (Swyddfa Gartref 2022a).

Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Uned Atal Trais Cymru (VPU). Mae'r ddogfen yn defnyddio Canllawiau Statudol Dyletswydd Trais Difrifol ar gyfer awdurdodau cyfrifol y Swyddfa Gartref (2022a); a[1] Dyletswydd Trais Difrifol: Canllawiau Asesu Anghenion Strategol Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2021). Bydd yn cael ei diweddaru os bydd unrhyw newidiadau i ganllawiau'r Swyddfa Gartref neu Lywodraeth Cymru, neu os bydd offer ac adnoddau newydd ar gael.

## Y Ddyletswydd Trais Difrifol

Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd llywodraeth y DU ei Strategaeth Trais Difrifol (Swyddfa Gartref, 2018) mewn ymateb i gynnydd mewn troseddau cyllyll, troseddau gynnau a dynladdiad. Roedd y strategaeth yn galw ar bartneriaid lleol i gydweithio ar draws gwahanol sectorau, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a'r sector gwirfoddol, i fabwysiadu dull aml-asiantaeth i leihau trais yn eu hardal.

Cyhoeddodd llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2019 y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth i greu Dyletswydd Trais Difrifol newydd (y 'Ddyletswydd'). Mae Deddf PCSC yn diwygio Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a daeth i rym ym mis Ionawr 2023. Mae'r Ddyletswydd yn cwmpasu'r gofynion a nodir ym Mhennod 1 Rhan 2 o Ddeddf PCSC. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i atal a lleihau trais, gan gynnwys nodi'r mathau o drais sy'n digwydd yn yr ardal, achosion y trais hwnnw (cyn belled ag y bo modd), a pharatoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal, a lleihau trais yn yr ardal. Mae rhagor o wybodaeth am y


[1] Ar 1 Hydref 2021, trosglwyddodd Public Health England i'r Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau, o fewn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (asiantaeth weithredol newydd o DHSC).

Ddyletswydd ym [Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2021: taflen ffeithiau dyletswydd trais difrifol.]

## Partneriaid sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd

Nid yw'r Ddyletswydd yn gofyn am greu strwythurau aml-asiantaeth newydd. Gall uwch arweinwyr lleol ddefnyddio strwythurau lleol presennol lle bo modd i gydymffurfio â gofynion y Ddyletswydd i gydweithio i atal a lleihau trais yn eu hardaloedd lleol ac, yn y pen draw, i wella diogelwch cymunedol a diogelu. Rhoddir yr hyblygrwydd i ardaloedd lleol bennu maint daearyddol eu partneriaeth ac fe'u hanogir i ddefnyddio partneriaethau amlasiantaethol presennol lle bo modd. Dylid cyfeirio at yr adran 'Cyflawni yng Nghymru' ym Mhennod 1 [Canllawiau Statudol Dyletswydd Trais Difrifol ar gyfer awdurdodau cyfrifol], (Swyddfa Gartref 2022a) am ragor o wybodaeth.

Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau penodedig canlynol o fewn ardal llywodraeth leol gydweithio i atal a lleihau trais difrifol:




Efallai y bydd awdurdodau penodedig am ymgysylltu ag awdurdodau addysg, carchardai a/neu ddalfeydd ieuenctid (a ddiffinnir fel awdurdodau perthnasol) er mwyn:

- Ceisio gwybodaeth leol ddefnyddiol a all gyfrannu at yr asesiad o anghenion strategol lleol.
- Cyrchu data perthnasol neu fewnwelediad ansoddol i fwydo i mewn i ddadansoddiad ar sail tystiolaeth o fynychder lleol ac achosion trais.
- Cyflawni unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth ar lefel sefydliad unigol sydd wedi'u cytuno ymlaen llaw gyda'r sefydliad(au) perthnasol
- Asesu effeithiolrwydd a chanlyniadau unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth sy'n cynnwys neu'n cael eu cyflawni gan sefydliadau unigol.

## Gofynion y Ddyletswydd

Bydd yn ofynnol i gynrychiolwyr yr awdurdodau penodedig gydweithio i:

1. cynnal dadansoddiad ar sail tystiolaeth o fynychder, effaith ac achosion trais yn eu hardal drwy ddatblygu asesiad o anghenion strategol (SNA);
2. datblygu a gweithredu strategaeth gydag atebion i atal a lleihau trais yn eu hardal, y bydd angen ei hadolygu bob blwyddyn.

Bydd y Ddyletswydd yn creu'r amodau i awdurdodau gydweithio, cyfathrebu'n rheolaidd, rhannu gwybodaeth, a chymryd camau cydlynol effeithiol yn eu hardaloedd lleol. Bydd pob sefydliad ac asiantaeth sy'n destun y ddyletswydd yn atebol am eu gweithgarwch a'u cydweithrediad â'i gilydd.

Mae rhagor o fanylion am ofynion a natur cyfrifoldebau statudol deiliaid Dyletswydd ac awdurdodau perthnasol ar gael yn y Canllawiau Statudol Dyletswydd Trais Difrifol ar gyfer awdurdodau cyfrifol (Swyddfa Gartref 2022a).

## Dull iechyd y cyhoedd

*"Mae gennym ni rai o'r offer a'r wybodaeth i wneud gwahaniaeth – **yr un offer a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus i fynd i'r afael â phroblemau iechyd eraill…** Mae trais yn aml yn **rhagweladwy** ac yn **ataliadwy**. Fel problemau iechyd eraill, nid yw wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws grwpiau poblogaeth neu leoliadau. Mae llawer o'r **ffactorau** sy'n cynyddu'r **risg** o drais yn cael eu rhannu ar draws y gwahanol fathau o drais ac maent yn **addasadwy**"*


- Gro Harlem Brundtland, yn Krug et al., 2002

Mae ymagwedd iechyd y cyhoedd yn ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar iechyd, diogelwch a lles poblogaeth gyfan. Mae'n defnyddio tystiolaeth amlddisgyblaethol i fabwysiadu dull systematig o hybu iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws poblogaeth.

Gellir hefyd addasu'r offer a'r sgiliau a ddefnyddir i ddeall problemau iechyd y cyhoedd i ategu'r dulliau presennol a ddefnyddir gan bartneriaid plismona a chyfiawnder troseddol i atal trais.

Mae ymagwedd iechyd y cyhoedd Sefydliad Iechyd y Byd at atal trais yn aml yn cael ei ddefnyddio fel ffrâm gyfeirio ar gyfer datblygu proses systematig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer atal trais. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid drwy gydol datblygiad y Fframwaith hwn i adeiladu ar y model hwn a chreu proses sy'n gweithio i Gymru.

Mae'r model pedwar cam a nodir isod yn adlewyrchu barn rhanddeiliaid yng Nghymru a datblygiadau mewn gwybodaeth am weithrediad ymarferol ymdrechion atal trais:




Mae'r pedwar cam hyn o ddull iechyd y cyhoedd wedi'u defnyddio'n llwyddiannus i roi gweithgareddau atal trais ar waith ledled y byd (Cynghrair Atal Trais WHO, 2019).

Yn ogystal â'r dull hwn, mae'r egwyddorion arweiniol canlynol yn cael eu hystyried yn eang fel nodweddion allweddol dull iechyd cyhoeddus:

- **Iechyd y boblogaeth** – Mae dull iechyd y cyhoedd yn ystyried iechyd poblogaethau cyfan, yn hytrach nag unigolion. Sylfaen y dull hwn yw deall anghenion iechyd poblogaeth a nodwyd a defnyddio data lefel poblogaeth i nodi tueddiadau, patrymau, cysylltiadau ac anghydraddoldebau o ran anghenion iechyd. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio rhaglennu atal, adnoddau, a gweithredu strategol. Gweler yr adran ar ddata a deallusrwydd am drosolwg o ffynonellau data atal trais.

- **Yn seiliedig ar dystiolaeth** – dylai rhaglenni atal trais gael eu llywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael o arfer effeithiol. Dylai rhaglenni fod yn seiliedig ar ddamcaniaeth newid a dylid eu gwerthuso gyda'r canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd er mwyn adeiladu'r sylfaen dystiolaeth gyfunol o 'beth sy'n gweithio' i atal trais. Mae VPU Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol John Moores Lerpwl wedi creu Pecyn Cymorth Gwerthuso Atal Trais sy'n ganllaw hawdd ei ddefnyddio i werthuso ymyriadau atal trais (Quigg et al., 2020).

- **Ataliol –** dylid gweithredu rhaglenni ar draws y sbectrwm atal; atal trais cyn iddo ddigwydd (atal sylfaenol); ymateb yn gynt ac yn fwy effeithiol i leihau niwed pan fydd yn digwydd (atal eilaidd); ac i atal aildroseddu, ail drawma ac atal y cylch o drais a chamdriniaeth rhwng cenedlaethau (atal trydyddol).
- **Yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais, bregusrwydd ac anghydraddoldeb** – dylai ymyriadau atal trais ddefnyddio dull aetiolegol. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar ddeall a cheisio mynd i'r afael ag *achosion* trais, bregusrwydd, ac anghydraddoldebau yn y cymunedau yr effeithir arnynt. Dylai ymyriadau fod yn seiliedig ar ddamcaniaeth newid sy'n ceisio mynd i'r afael â'r achosion hyn a mynd i'r afael ag effaith negyddol ffactorau risg sy'n hyrwyddo trais.
- **Seiliedig ar asedau a grymuso –** dylai rhaglenni gael eu cynllunio i adeiladu ar wytnwch ac asedau unigolion a chymunedau. Dylai ymyriadau rymuso partneriaid, cymunedau ac unigolion i atal trais, yn hytrach na bod yn seiliedig ar ddull cosbol.
- **Yn seiliedig ar le ac wedi'u cydgynhyrchu** – dylai ymyriadau fod yn benodol i'r cyd-destun ac wedi'u dylunio mewn partneriaeth â'r cymunedau y maent yn digwydd ynddynt. Weithiau disgrifir hyn fel 'gan ac ar gyfer' cymunedau sydd â gwybodaeth am eu hardal. Dylai hyn gynnwys lleisiau'r rhai sydd â phrofiad byw gan gynnwys dioddefwyr a goroeswyr.
- **Gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth system gyfan -** dylai mentrau atal trais ddefnyddio arbenigedd amlddisgyblaethol, aml-asiantaeth trwy ddull partneriaeth. Mae atal trais yn fater cymdeithasol sy'n gofyn am weithredu gan y system gyfan gan gynnwys asiantaethau lluosog, ni ellir ei wneud ar ei ben ei hun.
- **Polisi a deddfwriaeth sy'n cefnogi atal trais** – mae dull iechyd y cyhoedd yn cynnwys eiriol dros bolisi a deddfwriaeth sy'n cefnogi dull iechyd y cyhoedd o atal trais, megis cydnabod pwysigrwydd dulliau ataliol sy'n gwella iechyd a lles cenedlaethau'r dyfodol.
- **Wedi'i lywio gan drawma** - Mae cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol o bwysigrwydd gweithio mewn dull wedi'i lywio gan drawma. Mae cydnabod effaith profiadau trawmatig yn galluogi gwasanaethau cymorth i liniaru unrhyw effeithiau pellach o'r trawma. Mae ymchwil rhyngwladol wedi amlygu cysylltiadau cryf rhwng dulliau wedi'u llywio gan drawma a gwell iechyd a llesiant. Mae Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol i Ymateb i Drawma yng Nghymru (2022) yn ddiweddar. Mae'r fframwaith hwn yn sefydlu diffiniad a fframwaith cyson ar gyfer gweithredu dulliau wedi'u llywio gan drawma yng Nghymru.

- **Dull cwrs bywyd -** mae dull cwrs bywyd yn un sy'n ystyried effaith trais a chyfleoedd i atal ar draws cwrs bywyd. Trwy lens iechyd y cyhoedd, mae'n bwysig deall y gall ymyriadau (yn enwedig y rhai mewn plentyndod cynnar) atal trais yn y tymor hir, a gwella canlyniadau addysgol, rhagolygon cyflogaeth ac iechyd a llesiant unigolion a chymunedau. Mae ganddynt hefyd oblygiadau ehangach i'r economi a chymdeithas.

Nid yw dull iechyd y cyhoedd wedi'i chynllunio i ddisodli dulliau, sgiliau ac arbenigedd presennol a ddefnyddir gan yr heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill. Yn lle hynny, dylid defnyddio dull iechyd y cyhoedd i ategu ac ychwanegu gwerth at waith partneriaethau presennol i atal trais.

# Datblygu asesiad o anghenion strategol (SNA)

## Datblygu SNA


Mae'r diagram llif canlynol yn broses a awgrymir ar gyfer datblygu SNA. Mae'r bennod hon yn archwilio pob un o'r camau hyn yn fanylach. Cliciwch ar bob un o'r camau isod i gael gwybod rhagor.

1. Ymgyfarwyddo â'r Ddyletswydd a deall rôl eich sefydliad o fewn hyn.
2. Datblygu grŵp partneriaeth lleol ac ysgrifennu cylch gorchwyl
3. Penderfynu ar gwmpas yr SNA a'r diffiniadau o drais a ddefnyddir
4. Archwilio data lle a phoblogaeth i ddeall eich ardal leol
5. Archwilio data a gwybodaeth leol a chenedlaethol (meintiol ac ansoddol) y gellir eu dadansoddi ar gyfer yr SNA
6. Deall y ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer trais
7. Ystyried beth sy'n gweithio i atal trais
8. Datblygu argymhellion y cytunwyd arnynt o'r SNA y gellir eu defnyddio i lywio eich cynllun strategol lleol i atal trais.


Ystyriaethau croestoriadol:

a) Cynnwys llais cymunedol
b) Defnyddio lens croestoriadol
c) Chynnwys amrywiaeth o bartneriaid
d) Defnyddio dull wedi'i lywio gan drawma

### Ffigur 2: proses ar gyfer datblygu SNA




### Ffigur 1: egwyddorion croestoriadol i'w hystyried wrth ddatblygu eich asesiad o anghenion strategol



## 1. Gofynion y Ddyletswydd a rolau sefydliadol

Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid gydweithio i ddatblygu asesiad o anghenion strategol ar gyfer angen sy'n ymwneud â thrais yn eu hardal leol.

Mae asesiad o anghenion yn broses systematig lle mae sefydliadau partner lleol yn cydweithio i asesu anghenion iechyd, gofal a llesiant poblogaeth ddiffiniedig nawr ac yn y dyfodol. Mae'r defnydd o'r term 'strategol' i ddisgrifio'r asesiad o anghenion yn dangos y dylid ei ddefnyddio i helpu partneriaid i gytuno ar flaenoriaethau, dyrannu adnoddau, a chomisiynu ymyriadau i arwain camau gweithredu strategol ar gyfer atal trais.

Mae SNA trais yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion sy'n ymwneud â thrais o fewn ardal leol. Mae'n helpu partneriaid lleol i nodi'r grwpiau poblogaeth sydd fwyaf agored i gael eu heffeithio gan drais. Mae hefyd yn cynyddu dealltwriaeth o fathau, dosbarthiad a graddau trais yn yr ardal leol. Defnyddir canfyddiadau'r SNA gan bartneriaid lleol i lunio strategaeth ar y cyd sy'n cynnwys argymhellion penodol ar gyfer gweithredu.

**Enghreifftiau o asesiadau o anghenion:**

Newbury et al., (2020) *Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc yn Ne Cymru – Asesiad o Anghenion Strategol, Adroddiad ar y Prif Bwyntiau,* Mawrth 2020, Uned Atal Trais Cymru

Creswell et al., (2021) *Asesiad o Anghenion Iechyd: Effaith COVID-19 ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod* Uned Atal Trais Cymru.

Mae enghreifftiau pellach o SNAs o Gymru ar gael yn Hyb VIP VPU Cymru[2].

Yn nodweddiadol, byddai asesiad o anghenion yn cael ei gynnal gan dîm bach o ddadansoddwyr, ymchwilwyr, a/neu ymarferwyr iechyd y cyhoedd, yn aml dan arweiniad corff iechyd y cyhoedd (er nad yw hyn yn ofyniad penodol). Bydd angen i'r tîm sy'n gweithio ar yr SNA gydweithio i rannu data ar draws sefydliadau er mwyn dadansoddi data aml-sector er mwyn darparu darlun cyfannol o anghenion sy'n ymwneud â thrais yn eu hardal leol.

Dylai'r SNA gael ei oruchwylio gan y bwrdd partneriaeth sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddyletswydd. Dylid rhoi diweddariadau rheolaidd i'r bwrdd drwy gydol datblygiad yr SNA, a

[2] Er mwyn cymharu, mae enghreifftiau o SNAs o Unedau Lleihau Trais yn Lloegr ar gael yn aml ar wefannau sefydliadau.

dylid defnyddio arbenigedd y bwrdd i ddatblygu canfyddiadau allweddol, a chytuno ar argymhellion aml-asiantaeth.

## 2. Partneriaid lleol yn ymwneud ag SNAs

Dylai'r SNA gyflwyno darlun cyfannol o drais yn yr ardal a'r boblogaeth benodedig. Bydd hyn yn gofyn am gasglu a dadansoddi data gan ystod o wahanol bartneriaid, cyn belled ag y bo modd. Gallai hyn gynnwys (ond nid yw wedi'i gyfyngu i) data trosedd (e.e. data nifer a lleoliad), data ysbytai ar anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais, data addysg (e.e. digwyddiadau, triwantiaeth a gwaharddiadau), data carchardai dienw (e.e. mathau o droseddau) a data demograffig lleol (ee gwybodaeth cyfrifiad) ochr yn ochr â mewnbwn gwybodaeth a phrofiad sefydliadol, lle bo'n briodol, ac o brofiad personol unigolion a chymunedau.

Fel y cyfryw, dylai'r broses SNA gynnwys ystod eang ac amrywiol o bartneriaid mewn systemau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth a chyfiawnder lleol, gan gynnwys y sector gwirfoddol a'r gymuned leol. Gallai'r rhain gynnwys y sefydliadau hynny sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd ac eraill, y bydd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn rhan annatod o lunio darlun o sut mae trais yn effeithio ar ardal leol, megis:

- comisiynwyr yr heddlu a throseddu
- uwch swyddogion yr heddlu a gwasanaethau heddlu
- ystad ddiogel plant a phobl ifanc
- awdurdodau lleol: prif weithredwyr, cyfarwyddwr gwasanaethau plant, arweinydd strategol ar gyfer addysg, arweinydd strategol ar gyfer byrddau tai, iechyd a llesiant
- partneriaethau a chyrff cydweithredol presennol gan gynnwys partneriaethau diogelwch cymunedol a thimau troseddau ieuenctid
- byrddau diogelu plant lleol
- byrddau lleol diogelu oedolion
- penaethiaid lleol a rhwydweithiau neu gynrychiolwyr addysg
- partneriaethau amlasiantaeth lleol eraill nad ydynt yn orfodol, megis cynhadledd asesu risg amlasiantaeth gymunedol
- Byrddau Iechyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- gwasanaethau sector gwirfoddol, gan gynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd
- llywodraethwyr sefydliadau troseddau ieuenctid
- cyfarwyddwyr canolfannau hyfforddi diogel
- rheolwyr cartrefi plant diogel
- gwasanaethau ieuenctid
- llais cymunedol
- llais goroeswyr

- ymchwilwyr a chynrychiolwyr sefydliadau academaidd

Mae'r Ddyletswydd yn galluogi ardaloedd lleol i benderfynu sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd a defnyddio strwythurau a phartneriaethau strategol presennol i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Gwnewch yn siŵr bod sefydliad arweiniol priodol a pherson ar y bwrdd partneriaeth i weithio ar yr SNA o bob sefydliad. Cyfeiriwch at Ganllawiau Statudol Dyletswydd Trais Difrifol ar gyfer awdurdodau cyfrifol y Swyddfa Gartref (2022a) am awgrymiadau ynghylch cynrychiolaeth briodol.

Dylai'r bartneriaeth SNA ddeall a chadarnhau strwythur llywodraethu'r SNA o'r cychwyn cyntaf. Dylai ardaloedd lleol sefydlu cylch gorchwyl clir, gan gynnwys manylion am gyfrifoldebau ar gyfer cynhyrchu ac adolygu SNA yn barhaus.

## 3. Diffinio trais

Dylai'r bwrdd partneriaeth gytuno ar ddiffiniad(au) o drais, a'r ardal ddaearyddol y bydd yr SNA yn ei chwmpasu. Mae adran 13 y Ddeddf PCSC yn darparu, at ddibenion y Ddyletswydd, bod trais yn cynnwys cam-drin domestig, troseddau rhywiol, trais yn erbyn eiddo a bygythiadau o drais ond nid yw'n cynnwys terfysgaeth. Mae Canllawiau Statudol Dyletswydd Trais Difrifol ar gyfer awdurdodau cyfrifol y Swyddfa Gartref (2022a) yn cynnwys rhagor o fanylion ac ystyriaethau ar gyfer partneriaethau wrth ddatblygu eu diffiniad(au) lleol o drais.

Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r strategaeth ystyried mathau newydd o drais sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt ddatblygu a chael eu nodi, ac mae'n cydnabod gwahaniaethau daearyddol yn nifer yr achosion o wahanol fathau o drais. Fodd bynnag, gall ardaloedd lleol ddefnyddio tystiolaeth o'u SNA i ddiffinio cwmpas y trais y maent am ganolbwyntio arno.

Gallai partneriaethau hefyd ystyried canolbwyntio ar drais mewn poblogaeth benodedig, fel rhan o'u SNA, megis trais ymhlith plant a phobl ifanc, trais yn erbyn menywod a merched, neu drais yn erbyn pobl sy'n LHDTQIA+, er enghraifft. Fel arfer byddai bwrdd y bartneriaeth yn cytuno ar y dull hwn ar y cyd, i ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol. Mae'n bosibl y caiff SNAs eu datblygu'n thematig dros amser wrth i waith y bwrdd partneriaeth ddatblygu.

***Defnydd o'r term 'trais difrifol'***

Mae VPU Cymru yn annog partneriaethau i ymatal rhag defnyddio'r term 'difrifol' wrth ddiffinio trais. Trwy lens iechyd y cyhoedd, mae'n bwysig deall y gall ymyriadau (yn enwedig y rhai

mewn plentyndod cynnar) atal trais yn y tymor hir, a gwella canlyniadau addysgol, rhagolygon cyflogaeth ac iechyd a llesiant unigolion a chymunedau. Mae ganddynt hefyd oblygiadau cadarnhaol ehangach i'r economi a chymdeithas. Fel y cyfryw, yn hytrach na chanolbwyntio ymdrechion ar y mathau o drais a ystyrir yn fwyaf 'difrifol', mae'n bwysig annog partneriaethau i ystyried ystod ehangach o drais er mwyn sicrhau bod partneriaethau atal trais lleol yn cael yr effaith fwyaf posibl.

***Trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref  a thrais rhywiol (VAWDASV)***

Mae Adran 13 y Ddeddf PCSC yn ei gwneud yn glir bod cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o drais at ddiben y Ddyletswydd. Dylai awdurdodau penodedig gyfeirio at Pennod 2: Asesiadau o Anghenion Strategol y canllawiau drafft am ragor o wybodaeth am gynnal asesiadau o anghenion ar gyfer cam-drin domestig a throseddau rhywiol.

Mae adran 13(3)(a)(i) y Ddeddf PCSC yn pennu bod cam-drin domestig yn cael ei ddiffinio yn unol ag adran 1 y Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 ('Deddf Cam-drin Domestig'). Mae'r Ddeddf DA yn diffinio cam-drin domestig fel ymddygiad (naill ai digwyddiadau unigol neu batrwm o ymddygiad) rhwng rhai sydd dros 16 oed, 'yn bersonol gysylltiedig' ac, yn mynd y tu hwnt i drais corfforol yn unig i gynnwys ymddygiad treisgar neu fygythiol, ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, cam-drin rhywiol, cam-drin economaidd, a cham-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall. Mae Canllawiau Statudol y Ddeddf Cam-drin Domestig (2022) yn darparu gwybodaeth glir am beth yw cam-drin domestig a sut i'w adnabod.

Yng Nghymru, mae cam-drin domestig a throseddau rhywiol yn cael eu cydnabod o dan y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Deddf VAWDASV). Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd lleol i baratoi strategaeth ar gyfer ardal yr awdurdod lleol ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Fel y nodwyd yn y Canllawiau ar Ddyletswydd Trais Difrifol (Swyddfa Gartref 2022a), lle y bo'n bosibl, dylai awdurdodau penodedig geisio osgoi sefydlu trefniadau cyfochrog i gwmpasu'r Ddeddf VAWDASV a'r Ddyletswydd ar wahân. Yn hytrach, dylai sefydliadau geisio addasu a diwygio eu trefniadau presennol o dan y Ddeddf VAWDASV, lle bo modd, i sicrhau bod y trefniadau hyn hefyd yn mynd i'r afael â thrais yn ehangach yn unol â'r Ddyletswydd.

***Trais ymysg plant a phobl ifanc***

Mae Uned Atal Trais Cymru wedi llunio darlun o drais ymhlith plant a phobl ifanc a gafodd ei ddatblygu ac yna ymgynghori ar blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru:

‘Mae trais ymhlith plant a phobl ifanc yn derm ymbarél ar gyfer gweithredoedd o drais a chamdriniaeth rhwng y rhai dan 25 oed, neu’r bygythiad o hynny. Gall fod yn gorfforol, geiriol, seicolegol, rhywiol neu economaidd. Gall ddigwydd yn y cartref, lleoliadau addysg, gweithle, cymuned neu ar-lein.'

## 4. Data am leoedd a phoblogaeth

Er mwyn asesu’r anghenion iechyd, gofal a llesiant presennol ac yn y dyfodol sy’n ymwneud â thrais mewn ardal leol neu grŵp poblogaeth, rhaid i SNA ddisgrifio’n gyntaf nodweddion cymdeithasol, demograffig ac economaidd y boblogaeth yn yr ardal.

Mae’n bwysig ystyried ehangder y nodweddion a all effeithio ar lesiant corfforol, cymdeithasol a meddyliol y boblogaeth leol, gan gynnwys:

- rhyw
- oed
- ethnigrwydd
- rhywioldeb
- addysg
- cyflogaeth a diweithdra
- tlodi
- preswylfa wledig neu drefol
- Digartrefedd a thai

Dylai'r SNA hefyd gynnwys disgrifiad o gyfansoddiad llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, y system cyfiawnder troseddol a threfniadau llywodraethu o fewn y system leol.

Mae ffynonellau eraill o ddata am le a phoblogaeth yng Nghymru ar gael oddi wrth:

- Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) sy'n darparu gwasanaeth dadansoddi sy'n cyrchu gwybodaeth neu ddata pwrpasol a gedwir ar y Warws Data Cenedlaethol. Mae setiau data yn cwmpasu Data Gwasanaeth Demograffig Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar enedigaethau a marwolaethau, data sy'n ymwneud â gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau. Unwaith y byddwch wedi cofrestru i'r gwasanaeth, gellir sefydlu ceisiadau data pwrpasol ac echdynnu adroddiadau yn rheolaidd.
- Yn ogystal, mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth hefyd yn darparu mynediad i'r Mart Data Iechyd Cymru, offeryn rhyngweithiol sy'n galluogi'r defnyddiwr i echdynnu a dadansoddi data sy'n ymwneud ag iechyd o DHCW.
- Mae data YstadegauCymru ar gael i’r cyhoedd ac maent yn darparu ffynhonnell ddata gadarn ar draws ystod o themâu poblogaeth a mudo, iechyd, gofal cymdeithasol, diogelwch cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol, tai ac addysg. Gellir echdynnu data ar wahanol lefelau daearyddol er mwyn gallu meincnodi cyfartaleddau rhanbarthol.


- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys tua 12,000 o bobl bob blwyddyn ac yn ymdrin ag ystod eang o bynciau a all fod yn berthnasol i'r SNA, gan gynnwys yr ardal leol, y gymuned a'r amgylchedd, llesiant a chyllid, tai, iechyd, a phlant ac addysg, ymhlith eraill. Mae'n rhedeg drwy'r flwyddyn, ar draws Cymru gyfan. Defnyddir y canlyniadau gan Lywodraeth Cymru i helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw.
- Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) yn rhwydwaith o ysgolion uwchradd yng Nghymru sydd wedi ymuno ag ymchwilwyr, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i gefnogi iechyd pobl ifanc. Nod y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yw gwella iechyd a llesiant. Mae'r rhwydwaith yn helpu ysgolion yng Nghymru i weithio gydag ymchwilwyr i gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd da am wella iechyd. Mae SHRN yn cynnal ymchwil arolwg gydag ysgolion yn archwilio iechyd a llesiant, gan gynnwys pynciau y gellir eu hystyried fel rhan o SNA, gan gynnwys iechyd meddwl, rhyw a pherthnasoedd, a chysylltiadau ysgol.

## 5. *Data a deallusrwydd*

Dylai'r SNA ymgorffori ystod o ffynonellau data cenedlaethol a lleol yn ymwneud â thrais. Dylai'r bartneriaeth weithio gyda'i gilydd i ddeall pa ddata sydd ar gael a beth yw eu defnydd, gan gynnwys data sydd ar gael gan y sector gwirfoddol a llais y gymuned leol.

Dylai partneriaethau ystyried ansawdd y data ac unrhyw gyfyngiadau sydd ganddo wrth ddod i gasgliadau a gwneud argymhellion yn seiliedig ar y wybodaeth. Er enghraifft, gallant ofyn i'w hunain:

**Ffigur 4: ystyriaethau ar gyfer casglu a dadansoddi data**



Bydd lefel y manylder y gall partneriaeth fynd iddi yn amrywio fesul ardal yn dibynnu ar y data sydd ar gael. Mae digon o ddata ar gael yn gyhoeddus i bob partneriaeth ddechrau deall trais a sut mae'n effeithio ar eu cymunedau. Fodd bynnag, bydd data ychwanegol a geir drwy weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned a'r trydydd sector yn rhoi gwell dealltwriaeth o achosion ac effeithiau trais. Cofiwch ystyried natur gyfrinachol y data. Efallai y byddwch am roi gwybod am y tueddiadau yn wahanol pan fo ffigurau'n isel iawn i ddiogelu hunaniaeth person.

I helpu ardaloedd lleol i ddechrau gyda'u SNA, mae'r adran hon yn amlinellu'r data y gallai partneriaethau eu hystyried:

- Mae Hyb Cudd-wybodaeth Trais er Atal (VIP) yn hyb data pwrpasol sy'n defnyddio data gwyliadwriaeth trais ar draws llwyfan digidol diogel i ganiatáu ar gyfer cydgasglu a chyflwyno gwahanol ffynonellau data ar drais gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys graffiau, siartiau, tablau, a mapiau rhyngweithiol ar draws rhanbarthau lleol a'r ôl troed cenedlaethol. Mae setiau data'n cynnwys troseddau treisgar a adroddwyd gan yr heddlu, presenoldebau ymosodiadau mewn adrannau achosion brys, derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer ymosodiadau yn ymwneud â thrais ac ymosodiadau â chyllell/gwrthrych miniog, a galwadau sy'n ymwneud â thrais mewn ambiwlansys. Mae'r Hyb VIP hefyd yn cynnal enghreifftiau o SNAs ac adroddiadau Monitro Trais VPU.
  - Mae tîm VPU yn gweithio i gynnwys data yn yr Hyb VIP o bob rhan o Gymru a chynnwys ffynonellau data ychwanegol. Bydd mynediad i'r Hyb VIP ar gael yn ôl cais i'r tîm VPU o fis Mawrth 2023.
- Mae gan adroddiad diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 'Natur troseddau treisgar yng Nghymru a Lloegr' set o dablau data y gallwch ei lawrlwytho a'i defnyddio. Mae'r set ddata hon yn cynnwys niferoedd troseddau treisgar, mynychder a lleoliad gan ddefnyddio data blynyddol o Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr, Canolfan Ddata'r Swyddfa Gartref, a throseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Dim ond ar lefel genedlaethol y mae data ar gael.
- Mae data mynediad agored yr heddlu a throseddu ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gael i'r cyhoedd. Mae'r set ddata hon yn cynnwys gwybodaeth am droseddau ar lefel stryd, data canlyniadau, stopio a chwilio, gweithgarwch yr heddlu, arestiadau a thrin galwadau 101. Mae'n darparu swyddogaeth i gymharu ag ardaloedd eraill.
- Mae Cronfa Ddata Digwyddiadau Cleifion Cymru (PEDW) yn cael ei rheoli gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW). Mae PEDW yn cofnodi pob digwyddiad o weithgarwch cleifion mewnol ac achosion dydd yn ysbytai'r GIG ledled Cymru, sy'n cynnwys

derbyniadau wedi'u cynllunio a derbyniadau brys, mân lawdriniaethau a llawdriniaethau mawr, ac arosiadau ysbyty ar gyfer rhoi genedigaeth. Mae gweithgarwch ysbyty ar gyfer trigolion Cymru sy'n cael eu trin yng ngwledydd eraill y DU (Lloegr yn bennaf) hefyd wedi'i gynnwys. Mae data derbyniadau ysbyty o gronfa ddata PEDW hefyd ar gael ar yr Hyb VIP.

- Adolygiadau achos: gall gwybodaeth o adolygiadau statudol o laddiadau a digwyddiadau treisgar helpu i nodi tueddiadau, bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a chyfleoedd i'r system wella ei hymateb i drais. Oherwydd natur sensitif yr adolygiadau hyn, dylai partneriaethau drafod mynediad at ganfyddiadau yn uniongyrchol gyda'r heddlu lleol a chydweithwyr yn yr awdurdod lleol.


Setiau data eraill a nodwyd yn Canllawiau Statudol Dyletswydd Trais Difrifol ar gyfer awdurdodau cyfrifol y Swyddfa Gartref (2022a) y gall partneriaethau geisio eu cynnwys yn eu dadansoddiad yw:

- Data addysg
- Data carchar dienw
- Data Cynllun Datgelu Trais Domestig
- Data MARAC
- Data gofal cymdeithasol plant
- Canlyniadau adolygiadau dynladdiad gan gynnwys mewn meysydd fel dynladdiad domestig, diogelu plant ac oedolion, iechyd meddwl ac adolygiadau lladdiadau arfau ymosodol.
- Mewnbwn gwybodaeth a phrofiad sefydliadol a, lle bo'n briodol, gwybodaeth a gwybodaeth ddefnyddiol gan sefydliadau sector gwirfoddol arbenigol a phobl ifanc
- Bydd Fframwaith Perfformiad VAWG NPCC (2022) hefyd yn amlinellu data y dylai'r Heddlu eu casglu.

## 6. *Ffactorau risg ac amddiffynnol*

Mae'r model cymdeithasol-ecolegol yn darparu fframwaith ar gyfer deall y ffactorau amrywiol a all effeithio ar ymddygiad, meddyliau a chredoau unigolyn. Mae'n fodel amlbwrpas y gellir ei addasu i ddeall llawer o faterion iechyd y cyhoedd, nid dim ond ymddygiad treisgar.

**Ffigur 2: model cymdeithasol-ecolegol ar gyfer atal trais a ddatblygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (2002)**




O ran ymddygiad treisgar, mae'r model cymdeithasol-ecolegol yn caniatáu gwell dealltwriaeth o'r cydberthnasau deinamig rhwng ffactorau perthnasol sydd wedi'u lleoli ar lefelau unigol, perthynas, cymuned a chymdeithas. Gall rhai o'r ffactorau hyn gynyddu'r risg o drais neu niwed a achosir gan drais; cyfeirir at y rhain fel 'ffactorau risg'. Yn yr un modd, gall rhai ffactorau leihau'r risg o drais neu niwed a achosir gan drais; cyfeirir at y rhain fel 'ffactorau amddiffynnol'.

Mae dealltwriaeth gynhwysfawr o ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer trais yn hanfodol ar gyfer cynllunio a darparu rhaglenni atal trais. Dylai'r rhaglenni hyn anelu at addasu ffactorau risg a chynyddu ffactorau amddiffynnol fel rhan o ddamcaniaeth newid. Mae'n bwysig nodi nad yw ffactorau risg yn rhagfynegi ymddygiadau yn y dyfodol a gall eu perthynas â thrais fod yn gymhleth.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwahanol grwpiau o ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer gwahanol fathau o drais, megis cam-drin plant, trais ieuenctid, neu drais yn erbyn menywod a merched, er bod rhai ffactorau risg cyffredin hefyd ar draws pob math o drais, megis profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs). O'r herwydd, cynghorir yr SNA i archwilio'r sylfaen dystiolaeth academaidd ar gyfer y math o drais a nodwyd fel rhan o'r broses datblygu SNA. Mae ffynonellau gwybodaeth ar risg a ffactorau amddiffynnol ar gyfer atal trais wedi’u darparu isod:

**Ffynonellau gwybodaeth ar risg a ffactorau amddiffynnol ar gyfer atal trais**

Mae'r adnoddau canlynol yn darparu gwybodaeth am ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer atal trais:

Gwefan Gwybodaeth Trais WHO

Connecting the Dots: An Overview of the Links among Multiple Forms of Violence (CDC, 2014)

**Trais yn erbyn plant**

INSPIRE Framework: seven strategies for ending violence against children (WHO, 2016)

**Trais yn erbyn menywod a merched**

RESPECT Framework: Preventing violence against women (UN Women, 2019)

**Trais ieuenctid**

Center for Disease Control Website

***Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)***

Diffinnir ACEs fel *"profiadau ingol sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol (e.e. cam-drin rhywiol neu gorfforol) neu'n effeithio ar yr amgylchedd y mae'n byw ynddo (e.e. tyfu i fyny mewn tŷ â thrais domestig)".* Mae ACEs yn is-set bwysig o ffactorau risg ar gyfer pob math o drais.

Awgrymodd Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru (Bellis et al., 2016), a oedd yn cynnwys dros 2000 o gyfranogwyr rhwng 18 a 69 oed, nad oedd gan 53% o ymatebwyr unrhyw ACE. Fodd bynnag, roedd gan 14% bedwar ACE neu fwy. Roedd y grŵp hwn o unigolion tua 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn erbyn unigolyn arall yn y 12 mis blaenorol na'r rhai heb unrhyw ACE, a 14 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais yn y 12 mis blaenorol.

Credir bod ACEs yn gronnol o ran eu heffaith, sy'n golygu po fwyaf yw nifer yr ACEs y mae plentyn yn agored iddynt y mwyaf ei risg o brofi canlyniadau niweidiol sy'n gysylltiedig â thrais yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r berthynas rhwng ACEs a thrais yn gymhleth. Gyda hynny mewn golwg, mae rhai ystyriaethau pwysig y mae angen eu gwneud; nid yw ACEs yn


darparu rhagfynegiad o'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn cymryd rhan mewn trais; nid yw ACEs yn digwydd ar eu pen eu hunain ac maent yn fwy cyffredin ymhlith y rhai sy'n byw mewn tlodi, yn ynysig neu'n byw mewn amgylchiadau difreintiedig. Mae'r anghydraddoldebau cymdeithasol hyn nid yn unig yn cynyddu'r tebygolrwydd o ACEs, ond hefyd yn cynyddu eu heffaith negyddol; mae effaith ACEs yn amrywio rhwng unigolion a gall ystod o ffactorau eraill ei chyfryngu. Ar gyfer un unigolyn, gall un ACE gael effaith ddwys tra gallai unigolyn arall fod wedi profi ACEs lluosog a chael ei effeithio'n llai.

Fel y cyfryw, dylai defnyddio dull wedi'i lywio gan drawma fod yn rhan annatod o unrhyw strategaeth a luniwyd i atal ac ymateb i drais. Gall gwaith i liniaru effaith ACEs fod yn ffactor amddiffynnol effeithiol yn erbyn trais. Er enghraifft, mae "Adroddiad Polisi ar Adolygiad o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod" Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen i wasanaethau yng Nghymru ddarparu cymorth wedi'i lywio gan drawma i'r rhai y mae ACEs wedi effeithio arnynt (Llywodraeth Cymru, 2021). I gyflawni'r amcan hwn, mae Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol i Ymateb i Drawma yng Nghymru (2022).

## 7. 'Beth sy'n gweithio' ar gyfer atal trais?

Gall SNA lleol hefyd ystyried arfer effeithiol ar gyfer atal trais, y gellir ei ystyried fel rhan o strategaeth atal trais y bartneriaeth. Mae gwyddor atal iechyd y cyhoedd yn nodi tair haen ar draws y sbectrwm atal (ffigur 5). Nod atal sylfaenol yw atal trais cyn iddo ddigwydd, mae atal eilaidd yn canolbwyntio ar yr ymateb uniongyrchol i drais, ac mae atal trydyddol yn canolbwyntio ar ofal hirdymor ar ôl i drais ddigwydd. Er mwyn mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd effeithiol, mae angen ymyriadau ar bob haen o atal i sicrhau bod trais yn cael ei atal cyn iddo ddigwydd, a hefyd bod yr ymateb yn ddiogel, yn effeithiol ac yn dosturiol pan fydd trais yn digwydd, i atal trais yn y dyfodol.

### Ffigur 6: sbectrwm atal




Mae atal sylfaenol yn gofyn am newid yr amodau cymdeithasol, megis gwahaniaethu ar sail oed, hil ac anghydraddoldeb rhyw sy'n esgusodi, cyfiawnhau neu hyd yn oed hyrwyddo trais. Gall newid ymddygiad unigol fod yn ganlyniad bwriadol i weithgarwch atal, ond ni ellir cyflawni newid o’r fath cyn, neu ar wahân i, newid ehangach yng nghymhellion sylfaenol trais o’r fath ar draws cymunedau, sefydliadau a chymdeithas yn gyffredinol. Mae dull atal sylfaenol yn gweithio ar draws y boblogaeth gyfan neu o fewn grwpiau poblogaeth a dargedir i fynd i'r afael â'r agweddau, yr arferion a'r gwahaniaethau pŵer sy'n ysgogi trais.

Mae enghreifftiau o weithgareddau atal sylfaenol yn cynnwys rhaglenni mewn ysgolion i greu amgylcheddau teg wedi'u llywio gan drawma a meithrin sgiliau perthnasoedd iach myfyrwyr, ymdrechion i leihau portreadau niweidiol o bobl ifanc a dioddefwyr yn y cyfryngau, addysg gyhoeddus gynhwysfawr ac ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol, a mentrau cymunedol sy'n hyrwyddo gweithredu cadarnhaol gan wylwyr i newid normau niweidiol o ran cyfoedion a chymuned.

Mae dulliau o'r fath yn wahanol i ymatebion i drais presennol megis cwnsela mewn argyfwng, amddiffyn gan yr heddlu neu raglenni newid ymddygiad cyflawnwyr, yn ogystal â gweithgareddau ymyrraeth gynnar fel gweithio gyda phobl ifanc neu deuluoedd 'mewn perygl'. Rhaid cysylltu agenda atal sylfaenol yn effeithiol ag ymdrechion ymyrraeth gynnar ac ymateb, a elwir hefyd yn atal eilaidd neu drydyddol. Mae Tabl 1 yn rhoi rhai enghreifftiau o'r mathau o raglenni atal a chanlyniadau cysylltiedig ar draws y sbectrwm atal.

## Tabl 1: enghreifftiau o raglenni atal trais ar draws y sbectrwm atal (sylfaenol, eilaidd, trydyddol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lefel atal** | **Atal Sylfaenol**<br>Atal trais rhag digwydd yn y lle cyntaf | **Atal Eilaidd**<br>Ymyrryd yn gynnar pan fydd trais yn digwydd | **Atal trydyddol**<br>Sicrhau bod problem barhaus yn cael ei rheoli'n dda |
| **Enghreifftiau** | Blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd<br><br>Rhaglenni ysgol gyfan ar gyfer atal bwlio ac atal trai<br><br>Hyfforddiant gwylwyr<br><br>Rhaglenni cyflogaeth a hyfforddiant | Adnabod, cefnogi ac atgyfeirio ar gyfer dioddefwyr<br><br>Grymuso lleoliadau addysg, gweithle a chymunedol<br><br>Gofal therapiwtig<br><br>Cefnogaeth a hyfforddiant mewn sgiliau emosiynol a datrys problemau<br><br>Dargyfeirio troseddwyr risg isel | Dulliau cyfiawnder adferol<br><br>Rhaglenni newid ymddygiad cyflawnwyr |
| **Canlyniadau** | Mae pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn amgylcheddau iach a diogel<br><br>Mae pobl wedi'u harfogi i adnabod ymddygiad niweidiol a meithrin perthnasoedd cadarnhaol<br><br>Mae gan bobl obaith ar gyfer y dyfodol a chânt eu cefnogi i aros mewn addysg hyfforddiant a chyflogaeth ystyrlon | Mwy o ddatgeliadau ac adrodd<br><br>Mae dioddefwyr yn cael eu credu a'u cefnogi<br><br>Mae unigolion yn cael eu mentora gan oedolion y gellir ymddiried ynddynt<br><br>Gwell hunan-barch, rheoleiddio emosiynol a gwybodaeth a sgiliau<br><br>Cyfraddau is o aildderbyniadau mewn lleoliadau gofal bry | Mae cyfraddau aildroseddu yn gostwng |

**Ffynonellau gwybodaeth ar 'beth sy'n gweithio' i atal trais?**

Mae'r adnoddau canlynol yn darparu gwybodaeth am ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer atal trais:

Gwefan Gwybodaeth Trais WHO

**Trais yn erbyn plant**

INSPIRE Framework: seven strategies for ending violence against children (WHO, 2016)

**Trais ymhlith plant a phobl ifanc**

Good practice in youth violence prevention: A mapping and horizon scanning review (Maxwell and Corliss, 2020)

Center for Disease Control Website

Youth Endowment Fund Toolkit

Early Intervention Foundation Guidebook [ar-lein]

**Trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

RESPECT Framework: Preventing violence against women (UN Women, 2019)

Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)Asesiad Systematig o'r Dystiolaeth (Addis a Snowdon, 2021)

**Dulliau wedi'u llywio gan drawma**


Gwefan Hyb ACE Cymru

Beth sy'n gweithio gydag atal ac ymyrraeth gynnar o ran ACEs ar lefel gymunedol? Nodi a chefnogi prosiectau ledled Cymru (Addis a Hopkins, 2022)

## *8. Datblygu argymhellion*

Dylai argymhellion a ddatblygir ar gyfer yr SNA adlewyrchu canfyddiadau'r ddogfen yn uniongyrchol a mynd i'r afael â natur aml-asiantaeth y bartneriaeth. Dylai argymhellion fod yn strategol ac yn seiliedig ar dystiolaeth o arfer effeithiol i atal trais yn eich ardal leol. Gallai'r themâu y gallai argymhellion yr SNA eu harchwilio fod fel a ganlyn:

**Ffigur 3: themâu ar gyfer argymhellion SNA**




Dylai argymhellion fod yn seiliedig yn uniongyrchol ar ganfyddiadau allweddol yr SNA. Dylent gael eu datblygu a'u cytuno ar y cyd gan y bartneriaeth o sefydliadau sy'n ymwneud â datblygu'r SNA a'r strategaeth atal leol.

## Ystyriaethau croestoriadol

### *A. Llais cymunedol*

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn rhoi mewnwelediad i'r ffactorau risg ac amddiffynnol cymhleth a rhyng-gysylltiedig ar gyfer trais yn ogystal â gwybodaeth hanfodol sy'n archwilio realiti profiad bywyd a chyfleoedd ar gyfer atal, y gellir ei cholli trwy ddadansoddi data meintiol yn unig. Er mwyn i'r SNA fod o fudd i'r ardal leol, rhaid i'r bartneriaeth ddeall canfyddiad y gymuned o achosion trais a'r effaith y mae'n ei gael ar yr ardal.

Dylai partneriaethau hefyd ystyried barn y gymuned am yr hyn y dylid ei wneud yn lleol i fynd i'r afael â thrais, gan gynnwys yr hyn y maent yn ei feddwl fydd yn helpu i atal trais a beth allai wneud ymdrechion i fynd i'r afael â thrais yn anodd. Dylai ymgysylltiad cymunedol gynnwys amrywiaeth o leisiau ac yn arbennig gan grwpiau a allai fod mewn mwy o berygl o brofi trais.

Mae ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad byw a sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli yn rhan hanfodol o'r broses SNA, naill ai fel rhan o'r bwrdd llywodraethu neu gynghori, neu drwy ymchwil ansoddol. Gallai hyn fod trwy ymchwil sylfaenol neu drwy gynnwys ymchwil eilaidd sydd eisoes wedi'i gynnal yn yr ardal leol. Mae Cymorth i Fenwyod wedi datblygu [fframwaith cywirdeb ymchwil] am wneud ymchwil gyda goroeswyr (Williamson, 2020). Os ydych yn

ystyried cynnal eich ymchwil eich hun, ystyriwch gael caniatâd moesegol i wneud hynny. Bydd hyn yn cadw'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil a'r tîm ymchwil yn ddiogel.


## B. Croestoriadedd ac amrywiaeth

Defnyddir y term 'croestoriadedd' i ddisgrifio'r berthynas rhwng hunaniaeth gymdeithasol, systemau, pŵer, ac anghydraddoldeb strwythurol. Mae gan y 'croestoriad' hwn o hunaniaeth a grym cymdeithasol berthynas bwysig â thrais, oherwydd ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â chyffredinolrwydd, effaith a phrofiad byw trais ymhlith gwahanol grwpiau poblogaeth.

Disgrifir croestoriadedd fel: *"offeryn dadansoddol a ddefnyddiwn at ddiben monitro cydraddoldeb a hawliau dynol i ddangos y mathau gwahanol o niwed, cam-drin, gwahaniaethu ac anfantais a brofir gan bobl pan fydd categorïau lluosog o hunaniaeth gymdeithasol yn rhyngweithio â'i gilydd"* (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2017; 52)

Gellir deall elfennau sylfaenol dull croestoriadol fel (Llywodraeth yr Alban, 2022):

**Ffigur 4: elfennau o ddull croestoriadol**




Mae defnyddio lens groestoriadol, wrth archwilio trais trwy SNA, yn ddull hollbwysig o'i ddefnyddio. Er enghraifft, mae data ar fynychder trais yn erbyn menywod yn dangos bod y tebygolrwydd o brofi trais (neu fathau penodol o drais) yn uwch ar gyfer rhai grwpiau o fenywod. Nid yw hyn oherwydd bod rhai menywod yn eu hanfod yn 'agored i niwed'.

Yn hytrach, y croestoriadau rhwng prosesau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a mathau eraill o anghydraddoldeb systemig a strwythurol sy’n esbonio hyn. Yn ei dro, gall profi trais waethygu'r anghydraddoldebau cymdeithasol hyn, ac atgynhyrchir trais a strwythurau grym a gormes.

O'r herwydd, rhaid i waith dadansoddol a strategol ar gyfer atal trais fynd i'r afael â'r systemau lluosog a chroetoriadol hyn o ormes a gwahaniaethu, pŵer a braint sy'n llywio'r cyd-destun cymdeithasol y mae'r trais hwn yn digwydd ynddo.

***Pwysigrwydd amrywiaeth***

Oherwydd natur groestoriadol trais, mae'n bwysig sicrhau bod ystod amrywiol o leisiau'n cael sylw mewn SNAs sy'n ymwneud â thrais. Gall fod yn briodol hefyd cynnal SNAs mwy penodol i archwilio effaith trais ar grwpiau penodol. Er enghraifft, efallai y bydd gan fudwyr, ceiswyr lloches, a ffoaduriaid, neu Gymunedau Sipsiwn Roma, Teithwyr brofiad gwahanol iawn o drais o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Gellid gwahodd aelodau o'r gymuned a/neu gynrychiolwyr o sefydliadau cymunedol sy'n cynrychioli grwpiau cymunedol penodol i ymuno â bwrdd y bartneriaeth.

**Ffynonellau gwybodaeth am groestoriadedd**

Gall yr adnoddau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth archwilio trais fel mater croestoriadol:

**Adnoddau**

Using intersectionality to understand structural inequality in Scotland: evidence synthesis (Scottish Government, 2022)

Intersectionality in practice: Research findings for practitioners & policy makers (Christoffersen, 2021)

**Ymchwil**

Identifying women's pathways to offending and the primary prevention and early intervention opportunities for women at risk of offending in Wales (Sheeran, 2022)

Unchartered Territory Review (Hopkins and Assami, 2021)

Poverty and Bullying Report (Sudarsan, 2022)

**Polisi a strategaeth**

Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022)

Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru (Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, 2022)

Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020)

Strategaeth Tlodi Plant Cymru (Tlodi Plant, 2015)

## C. Wedi'i lywio gan drawma

Mae cysylltiad cryf rhwng ACEs, trawma a thrais, felly mae'n rhaid i waith atal trais gael ei ategu gan ddulliau i liniaru effaith ACEs a thrawma. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud "*ni allwn anwybyddu'r angen i ddarparu ymatebion cydymdeimladol a chymorth wedi'i lywio gan drawma i'r rhai sydd eisoes wedi cael eu heffeithio gan ACEs neu bwysigrwydd mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac adeiladu cydnerthedd" (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'n bwysig nodi nad yw dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar drawma yn benodol i weithio gyda'r rhai sydd wedi cael ACEs; mae dulliau sy'n seiliedig ar drawma i'w defnyddio gydag unrhyw un sydd wedi profi trawma; gan gynnwys*

*ACEs, anaf corfforol, trawma seicolegol, hiliaeth, a galluogrwydd, hiliaeth neu waharddiad rhywedd (Walker et al., 2021).*

Ceir cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol o bwysigrwydd gweithio mewn ffordd wedi'i llywio gan drawma gan fod cydnabod effaith profiadau trawmatig yn galluogi gwasanaethau cymorth i liniaru unrhyw effeithiau pellach o’r trawma. Mae ymchwil rhyngwladol wedi amlygu cysylltiadau cryf rhwng dulliau wedi'u llywio gan drawma a gwell llesiant (corfforol, emosiynol, ysbrydol a meddyliol) (Ramasubramanian & Riewestahl, 2021).

Mae “Adroddiad Polisi Adolygiad o ACEs” Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i ddatblygu iaith gyffredin a chyson, gan gynnwys yr hyn a olygir wrth ‘ddull wedi’i lywio gan drawma’, wedi’i ddilyn gan gynnydd mewn codi ymwybyddiaeth o’r hyn sy’n gweithio i atal a chefnogi pobl sy’n wedi profi trawma (Llywodraeth Cymru, 2021). I gyflawni'r amcanion hyn, mae Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol i Ymateb i Drawma yng Nghymru (2022). Mae’r Fframwaith yn amlygu pedair lefel ymarfer sy’n seiliedig ar drawma, yn amrywio o ddull cyffredinol at ymyriadau arbenigol, a hefyd pum egwyddor ymarfer a ddylai fod yn sail i ddulliau gweithredu sy’n seiliedig ar drawma ledled Cymru; y rhain yw:




**Ffigur 5 Pum egwyddor ymarfer**

**Adnoddau wedi'u llywio gan drawma**

Gallai’r adnoddau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu dull sydd wedi'i lywio gan drawma:

**Adnoddau:**

Hyb ACE Cymru

Fframwaith wedi'i Lywio gan Drawma Cymru

Pecyn Cymorth TrACE (Sefydliadau wedi'u Llywio gan Drawma ac ACEs)

Hyfforddiant sefydliadau wedi'u llywio gan drawma Cymru gyfan

**Ymchwil:**

Beth sy'n gweithio gydag atal ac ymyrraeth gynnar o ran ACEs ar lefel gymunedol? Nodi a chefnogi prosiectau ledled Cymru (Addis a Hopkins, 2022)

'Wedi'i lywio gan drawma': adnabod iaith a therminoleg allweddol trwy adolygiad o'r llenyddiaeth (Addis et al., (2022)

Ymchwiliad i'r derminoleg a’r dulliau wedi'u llywio gan drawma sy'n cael eu defnyddio gan raglenni, ymyriadau a phrosiectau arwyddocaol yng Nghymru (Walker et al., 2021)

# Crynodeb


Cyhoeddodd llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2019 y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth i greu Dyletswydd Trais Difrifol newydd (y 'Ddyletswydd'). Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad ar y ddyletswydd gyfreithiol newydd. Mae Adran 6(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, sy'n nodi'r strategaethau y mae'n rhaid i awdurdodau cyfrifol eu llunio a'u gweithredu, wedi'i diwygio i gynnwys trais difrifol yn benodol.

Mae'r Ddyletswydd, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2023, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i atal a lleihau trais. Bydd yn ofynnol i gynrychiolwyr yr awdurdodau penodedig gydweithio i:

1. cynnal dadansoddiad ar sail tystiolaeth o fynychder, effaith ac achosion trais yn eu hardal drwy ddatblygu asesiad o anghenion strategol (SNA);
2. datblygu a gweithredu strategaeth gydag atebion i atal a lleihau trais yn eu hardal, y bydd angen ei hadolygu bob blwyddyn.

Mae'r canllawiau hyn i Gymru yn archwilio'r gofyniad i ddatblygu SNA fel rhan o ddull iechyd y cyhoedd, gan gynnwys y camau allweddol wrth ddatblygu SNA, gweithio mewn partneriaeth, ffynonellau data, diffiniadau trais, damcaniaeth atal trais, arfer effeithiol ar gyfer atal trais, a datblygu argymhellion. Yn ogystal, mae'n darparu gwybodaeth am adnoddau defnyddiol, ac ystyriaethau croestoriadol i bartneriaethau lleol eu harchwilio wrth ddatblygu SNA.

## Cyfeiriadau


Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru (2022) *Cymru wedi'i llywio gan drawma: dull cymdeithasol o ddeall, atal a chefnogi effeithiau trawma ac adfyd,* Hyb ACE Cymru, Caerdydd, ar gael oddi wrth: https://traumaframeworkcymru.com/wp-content/uploads/2022/07/Trauma-Informed-Wales-Framework.pdf

Addis et al., (2022)'*Wedi'i lywio gan drawma': nodi iaith a therminoleg allweddol trwy adolygiad o'r llenyddiaeth,* Hyb ACE Cymru, Caerdydd ar gael ar-lein oddi wrth: https://acehubwales.com/resources/trauma-informed-identifying-key-language-and-terminology-through-a-review-of-the-literature/

Addis a Hopkins, (2022) *Beth sy'n gweithio o ran atal ACEs ac ymyrraeth gynnar ar lefel gymunedol? Nodi a chefnogi prosiectau ledled Cymru*, Hyb ACE Cymru, Caerdydd, ar gael ar-lein oddi wrth: https://acehubwales.com/resources/what-works-in-the-prevention-and-early-intervention-of-aces-at-the-community-level-identifying-and-supporting-projects-across-wales/

Addis a Snowdon, (2021) *Beth sy'n gweithio i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol? Asesiad tystiolaeth systematig, Uned Atal Trais Cymru, Caerdydd, ar gael ar-lein o* - https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/What-Works-to-Prevent-Violence-against-Women-Domestic-Abuse-and-Sexual-Violence-Systematic-Evidence-Assessment_2021-09-20-124755_aypz.pdf

Connecting the Dots: An Overview of the Links among Multiple Forms of Violence, Center for Disease Control and Prevention, Atlanta, Georgia, United States, ar gael ar-lein o: https://www.cdc.gov/violenceprevention/pdf/connecting_the_dots-a.pdf

Christoffersen (2021) *Intersectionality in practice: Research findings for practitioners & policy makers,* University of Edinburgh, available online from: https://www.intersectionalityinpractice.ed.ac.uk/wp-content/uploads/2021/09/Intersectionality-in-practice.pdf

Creswell et al., (2021) *Asesiad o Anghenion Iechyd: Effaith COVID-19 ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod,* Uned Atal Trais Cymru, Caerdydd, ar gael ar-lein o: https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Full-Report_The-impact-of-COVID-19-on-children-and-young-peoples-experiences-of-violence-and-adverse-childhood-experiences.pdf

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, (2022) *Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru,* Prifysgol De Cymru, ar gael ar-lein o: https://commissioner.south-

wales.police.uk/media/2450/c22-0119_criminal-justice-anti-racism-action-plan-for-wales_report_criminal-justice-in-wales_pages.pdf

Y Swyddfa Gartref (2018) *Strategaeth Trais Difrifol,* Y Swyddfa Gartref, Llywodraeth y DU, Llundain, ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/serious-violence-strategy

Y Swyddfa Gartref (2022a) *Serious Violence Duty, Preventing and reducing serious violence: Statutory Guidance for responsible authorities,* Gov. UK, Home Office, UK Government, London, ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1125001/Final_Serious_Violence_Duty_Statutory_Guidance_-_December_2022.pdf

Y Swyddfa Gartref (2022b) *Domestic abuse statutory guidance,* Home Office, UK Government, London, ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1089015/Domestic_Abuse_Act_2021_Statutory_Guidance.pdf

Hopkins ac Assami, (2021) Adolygiad o Torri Tir Newydd, Hyb ACE Cymru, Caerdydd, ar gael ar-lein o: https://acehubwales.com/resources/uncharted-territory-review/

Krug et al., (2002) *World Report on Violence and Health,* World Health Organization, Geneva, ar gael ar-lein o: https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/42495/9241545615_eng.pdf

Maxwell and Corliss (2020) *Good practice in youth violence prevention: A mapping and horizon scanning review*, University of Cardiff, Cardiff, ar gael o: https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Mapping-and-horizon-scanning-review-of-youth-violence-prevention.pdf

Newbury et al., (2020) *Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc yn Ne Cymru – Asesiad o Anghenion Strategol, Adroddiad ar y Prif Bwyntiau,* Uned Atal Trais Cymru, ar gael o: https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/FINAL_Strategic-needs-assessment-highlight-report-compressed.pdf

NPCC (2022) Violence against women and girls: outcomes and performance framework, College of Policing, ar gael ar-lein o: https://cdn.prgloo.com/media/889fa289689a49b8ab8bfac48fce5a50.pdf

PHE (2021) *Serious Violence Duty: strategic needs assessment guidance,* Gov.UK, https://www.gov.uk/government/publications/serious-violence-duty-strategic-needs-assessments/serious-violence-duty-strategic-needs-assessment-guidance

Quigg et al., (2020) *Pecyn Cymorth Gwerthuso Atal Trais,* Lerpwl/Caerdydd, Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl, Uned Atal Trais Cymru, ar gael o: https://www.violencepreventionwales.co.uk/research-evidence/evaluation

Ramasubramanian, S. & Riewestahl, E. (2021). *Trauma-informed Approaches. International Encyclopaedia of Health Communication*. Ar gael yn Trauma-InformedApproaches.Ramasubramanian.Riewestahl.2021..pdf

Scottish Government, (2022) *Using intersectionality to understand structural inequality in Scotland: evidence synthesis,* Edinburgh, ar gael ar-lein o: https://www.gov.scot/publications/using-intersectionality-understand-structural-inequality-scotland-evidence-synthesis/pages/3/

Sheeran (2022) *Nodi llwybrau menywod i droseddu a'r cyfleoedd atal sylfaenol ac ymyrraeth gynnar i fenywod sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru,* Hyb ACE Cymru, Caerdydd, ar gael ar-lein oddi wrth: https://acehubwales.com/resources/identifying-womens-pathways-to-offending-and-the-primary-prevention-and-early-intervention-opportunities-for-women-at-risk-of-offending-in-wales/

Sudarsan, (2022) *Adroddiad ar Dlodi a Bwlio,* Plant yng Nghymru, ar gael ar-lein o: https://www.plantyngnghymru.org.uk/application/files/6716/6868/4969/Poverty_and_bullying_report_Nov_2022.pdf

UN Women, (2019) *RESPECT Framework: Preventing violence against women,* UN Women and World Health Organization, New York and Geneva, ar gael ar-lein o: https://www.unwomen.org/sites/default/files/Headquarters/Attachments/Sections/Library/Publications/2019/RESPECT-Women-Preventing-violence-against-women-en.pdf

Walker et al., (2021) *Archwiliad o'r derminoleg a'r dulliau wedi'u llywio gan drawma sy'n cael eu defnyddio gan brosiectau, rhaglenni ac ymyriadau arwyddocaol yng Nghymru*, Hyb ACE Cymru, ar gael ar-lein o: https://acehubwales.com/resources/an-exploration-of-the-trauma-informed-terminology-and-approaches-being-used-by-significant-projects-programmes-and-interventions-in-wales/

Llywodraeth Cymru (2015) *Strategaeth Tlodi Plant Cymru*, Llywodraeth Cymru, Caerdydd, ar gael ar-lein o: https://gov.wales/child-poverty-strategy-wales-report

Llywodraeth Cymru (2020) *Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhyw yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Caerdydd, ar gael ar-lein oddi wrth: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/advancing-gender-equality-plan.pdf

Llywodraeth Cymru (2022) *Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol*, Llywodraeth Cymru, Caerdydd, ar gael ar-lein o: https://gov.wales/anti-racist-wales-action-plan

Williamson, E., (2020) *Research Integrity Framework (RIF) for Domestic Violence and Abuse (DVA)* Women's Aid, ar gael o: https://www.womensaid.org.uk/research-integrity-framework-for-domestic-violence/

WHO (2016) *INSPIRE Framework: seven strategies for ending violence against children*, World Health Organization, Geneva, ar gael ar-lein o: http://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/207717/9789241565356-eng.pdf;jsessionid=8C1BA0E40C778AC732B7D7D5C38501ED?sequence=1

WHO Violence Prevention Alliance (2019) The public health approach [Rhyngrwyd], ar gael o: https://www.who.int/violenceprevention/approach/public_health/en/

Uned Atal Trais Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit